

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 Rhif.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (DUMBALLS ROAD, BUTETOWN, CAERDYDD) 2012

Gwnaed 21 Mawrth 2012

Yn dod i rym 28 Mawrth 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a phob pŵer galluogi arall(2).

1. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn y teitl "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Dumballs Road, Butetown, Caerdydd) 2012" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru'n awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd, gan eu bod wedi eu bodloni bod angen cau'r ffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud fel a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 12 Mai 2011 o dan y cyfeirnod 11/00397/DCI.

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;
- (b) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn

angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; ac

- (c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr gan gadarnhau bod darpariaethau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

4. Os yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

5. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

6. Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir gyntaf yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw fydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Dumballs Road, Butetown, Caerdydd) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Mawrth 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(3) 1980 p.66

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r darn o'r briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp a elwir Dumballs Road, yn Butetown, Caerdydd, sy'n ymestyn o Randai Carlotta Way i Warws Lonsdale, sydd yn y man hiraf yn 34 o fetrau, yn y man lletaf yn 7.3 o fetrau a chyfanswm yr arwynebedd yn 139 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 2

Y Datblygiad Arfaethedig

Dymchwel arfaethedig Pafiliwn Ieuenctid Butetown presennol a chodi Pafiliwn Ieuenctid dau lawr newydd ynghyd â chyfleusterau ychwanegol.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (DUMBALLS ROAD, BUTETOWN, CAERDYDD) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd. Bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os di-rymir ef.

Yn ystod y chwe wythnos ar ôl 28 Mawrth 2012, gellir archwilio copiau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn Swyddfeydd Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd

methiant i gydymffurfio ag unrhyw
un o ofynion y Ddeddf;

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 28 Mawrth
2012, wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu
ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a
geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn
<http://wales.gov.uk/?lang=cy> (detholer:
'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau
Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', Gorchymynion Cau
Priffyrdd', '2012').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad
Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10
3NQ.**

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o'r briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp a elwir Dumballs
Road, yn Butetown, Caerdydd, sy'n ymestyn o Randai
Carlotta Way i Warws Lonsdale, sydd yn y man hiraf
yn 34 o fetrau, yn y man lletaf yn 7.3 o fetrau a
chfanswm yr arwynebedd yn 139 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 2

Y Datblygiad Arfaethedig

Dymchwel arfaethedig Pafiliwn Ieuentid Butetown
presennol a chodi Pafiliwn Ieuentid dau lawr newydd
ynghyd â chyfleusterau ychwanegol, yn unol â
chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan
Ran III o Ddeddf 1990, ar 12 Mai 2011 o dan y
cyfeirnod 11/00397/DCI.